# Hysbysiad Preifatrwydd Ymchwilydd

Mae'r Hysbysiad hwn ar gyfer pobl sy'n cymryd rhan, neu wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn, prosiect ymchwil academaidd sy'n cael ei wneud gan fyfyrwyr PWG a/neu staff ("ymchwilwyr PWG"). Dylech ddarllen yr Hysbysiad hwn ochr yn ochr â'r ddalen wybodaeth cyfranogwr a ddarparwyd i chi gan ymchwilwyr PWG.

## Cwestiynau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â chymryd rhan mewn prosiect ymchwil a sut fydd eich data yn cael ei gasglu a'i reoli ar gyfer y prosiect, cysylltwch ag ymchwilwyr PWG gan ddefnyddio'r manylion yn y ddalen wybodaeth cyfranogwr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon eraill ynglŷn â PWG yn prosesu gwybodaeth i ddibenion ymchwil a chynnwys yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data PWG (DPO):

E-bost: dpo@glyndwr.ac.uk    Teleffon: 01978 293995    Cyfeiriad: Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam

## Eich hawliau fel gwrthrych data a sut i'w hymarfer

O dan y deddfau diogelu data mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'n prosesu o'ch data. Yn gryno y rhain yw:

- Hawl i ofyn am fynediad at eich data fel y caiff ei brosesu gan PWG a gwybodaeth ynglŷn â'r prosesu hwnnw ["cais gwrthrych am wybodaeth"];
- Hawl i gywiro unrhyw anghywirdebau yn eich data;
- Hawl i ofyn am ddileu eich data o'n systemau a ffeiliau;
- Hawl i osod cyfyngiadau ar ein prosesu o'ch data;
- Hawl i wrthwynebu ein prosesu o'ch data;
- Hawl i gludadwyedd data: lle rydym yn prosesu data rydych chi wedi eu darparu i ni, ar sail cydsyniad neu yn ôl yr angen er mwyn perfformio contract rhyngom, mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddarparu eich data mewn fformat priodol i chi neu reolydd arall.

Mae'r rhan fwyaf o'r hawliau hyn yn ddarostyngedig i rai eithriadau neu hepgoriadau. Yn benodol, mae terfynau ar eich hawl i gyfyngu ein prosesu neu ddileu eich data lle byddai hyn yn cael effaith andwyol ar gywirdeb a gwerth ymchwil academaidd, er fel yr esboniwyd uchod byddwn yn cytuno fel arfer i dynnu eich data o astudiaethau lle mae hynny'n bosibl.

Os hoffech ymarfer unrhyw un o'ch hawliau fel yr amlinellir uchod, gallwch gysylltu â'r DPO megis uchod neu ymweld â'r dudalen Diogelu data ar ein gwefan https://www.glyndwr.ac.uk/en/informationgovernance i geisio'r ffurflenni perthnasol.

Byddwn yn anelu bob tro i ymateb yn glir ac yn llawn i unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â'n prosesu a cheisiadau i ymarfer yr hawliau a amlinellir uchod. Fodd bynnag, fel

gwrthrych data os oes gennych bryderon ynglŷn â'n prosesu data neu yn ystyried ein bod wedi methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data yna mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn i'r rheoleiddiwr diogelu data, y Comisiynydd Gwybodaeth:

Adrodd ar-lein: https://ico.org.uk/concerns/

E-bost: casework@ico.org.uk

Tel: 0303 123 1113

Post:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

**Ynglŷn â'r hysbysiad hwn**

Yn yr Hysbysiad hwn, mae "PWG", "ni", "ein" a "ninnau" yn cyfeirio at Brifysgol Glyndŵr.

O ganlyniad i'ch cyfranogaeth yn ein hymchwil, bydd PWG yn cadw eich "data personol", hynny yw, gwybodaeth mewn ffurf sy'n eich adnabod fel unigolyn [cyfeirir ato'n aml fel "data" yn yr Hysbysiad hwn]. PWG yw rheolydd data'r wybodaeth mae'n ei chasglu a phrosesu fel y disgrifir yn yr Hysbysiad hwn. Mae hyn yn golygu bod ganddi'r cyfrifoldeb cyfreithiol craidd i ddiogelu'r wybodaeth a sicrhau ei bod yn cael ei phrosesu'n gyfreithlon. Amlinellir y ddeddf yn Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd (fe'i gelwir yn "GDPR") a deddf newydd yn y DU, y Ddeddf Diogelu Data 2018. Yn benodol, mae'n rhaid i PWG:

- Gymryd camau i sicrhau bod y data mae'n prosesu yn gywir a chyfredol;
- Rhoi gwybodaeth glir ynglŷn â'i phrosesu o'ch data, mewn un neu fwy o hysbysiadau preifatrwydd fel yr un hwn a'r ddalen wybodaeth cyfranogwr (cyfeirir atynt gyda'i gilydd yn yr adran hon fel "Hysbysiad Preifatrwydd");
- Prosesu eich data i ddibenion penodol yn unig a ddisgrifir i chi yn y ddalen wybodaeth a'r Hysbysiad Preifatrwydd, a dim ond rhannu eich data gyda thrydydd partïon fel y darparwyd ar eu cyfer mewn Hysbysiad Preifatrwydd a dalen Wybodaeth. Amlinellir y sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu hwn o fewn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn; a
- Chadw eich data'n ddiogel.

**Amlinellir gwybodaeth ynglŷn â'ch hawliau diogelu data fel gwrthrych data yn ail adran yr Hysbysiad hwn.**

**Sut a pham y byddwn yn casglu eich data personol**

Hoffem i chi gymryd rhan neu barhau i gymryd rhan mewn ymchwil academaidd sy'n cael ei gyflawni gan ymchwilwyr PWG.

Mae "Ymchwil" yn ffurf o ymholiad disgybledig sy'n anelu at gyfrannu at gorff o wybodaeth neu theori. Gallai'r ymchwilwyr PWG sy'n cyflawni'r ymchwil fod yn fyfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig (yn gweithio o dan yr oruchwyliaeth staff briodol), staff PWG neu gyfuniad o staff

a myfyrwyr. Gall yr ymchwil gael ei gyflawni gan ymchwilwyr PWG yn unig, neu gallai gynnwys ymchwilwyr PWG yn gweithio ar y cyd ag ymchwilwyr mewn sefydliadau eraill. Mae prosesau PWG yn darparu y bydd ymchwilwyr PWG ond yn cyflawni ymchwil lle bydd gan ganlyniadau'r ymchwil werth i gymdeithas, a lle bydd yr ymchwil yn ateb safonau neu ofynion moesegol perthnasol.

Mae'r ddalen wybodaeth a roddwyd i chi yn amlinellu manylion yr astudiaeth ymchwil benodol. Mae hyn yn esbonio pwrpas yr ymchwil, y meini prawf ar gyfer cymryd rhan (hynny yw, pam y credwn eich bod yn berson addas i gymryd rhan), beth mae cymryd rhan yn ei olygu (hynny yw, beth y byddwn yn gofyn i chi wneud) a pha ddata y byddwn yn casglu neu gynhyrchu a chadw yng nghwrs y prosiect ymchwil. Mae'n esbonio hefyd sut y byddwn yn defnyddio eich data yn ein hallbynnau ymchwil, ac yn rhoi gwybod i chi os bydd angen rhannu eich data fel arfer mewn ffurf adnabyddadwy gydag unrhyw drydydd partïon, fel cydweithwyr o sefydliadau eraill.

Yn ychwanegol at ddata a gasglwn oddi wrthych neu a gynhyrchwn trwy ryngweithiadau gyda chi fel rhan o'r gweithgaredd ymchwil, byddwn hefyd yn cadw eich data personol o fewn dogfennaeth llywodraethiant prosiect (yn benodol cytundebau cymryd rhan neu ffurflenni cydsynio) a chofnodion o unrhyw gyfathrebiadau gyda chi trwy e-bost neu lythyr. Bydd angen i'r rhain gael eu cadw fel arfer i ddibenion archwiliad hyd yn oed os penderfynwch beidio â chymryd rhan neu dynnu yn ôl o gymryd rhan ar ddyddiad diweddarach.

**<u>Sut y gwarchodwn eich data</u>**

Bydd PWG yn cadw'r data a gasglwn amdanoch mewn copi caled mewn lleoliad diogel ac ar rwydwaith diogel gwarchod cyfrinair lle cânt eu cadw'n electronig.

Ac eithrio lle mae wedi cael ei wneud yn ddienw, bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei cheisio a'i defnyddio gan unigolion priodol, awdurdodedig yn unig a phan mae hyn yn angenrheidiol i ddibenion yr ymchwil neu ddiben arall a nodir isod. Gall hyn gynnwys rhoi mynediad i staff PWG neu eraill sy'n gyfrifol am fonitro a/neu archwilio'r astudiaeth, sydd ag angen sicrhau bod yr ymchwil yn cydymffurfio â rheoliadau cymwysadwy.

Mae'r daflen wybodaeth cyfranogwr yn darparu gwybodaeth ychwanegol ynglŷn ag unrhyw fesurau penodol i'r prosiect ymchwil fydd yn cael ei defnyddio i reoli mynediad at eich data neu leihau'r defnydd o'ch data mewn ffurf adnabyddadwy.

**<u>Defnyddiau ychwanegol o'ch data</u>**

Fel arfer byddwn ond yn defnyddio eich data adnabyddadwy i ddibenion y prosiect ymchwil penodol, ac ar gyfer gweithgareddau monitro ac archwilio cysylltiedig sy'n cael eu cyflawni gan unigolion awdurdodedig gyda chyfrifoldeb dros y gweithgareddau hynny. Os bwriadwn ddefnyddio eich data adnabyddadwy mewn unrhyw brosiect ymchwil perthynol arall neu ar gyfer ymchwil dros gyfnod hirach, bydd hyn cael ei esbonio yn y ddalen wybodaeth cyfranogwr.

Lle mae'r canlyniadau ymchwil yn eich data yn cael eu gwneud yn ddienw ac yn ffurfio rhan o set data ymchwil ystadegol, gallwn ei storio yn ein harchif ymchwil a'i ddefnyddio (yn y ffurf ddienw honno) ar gyfer ymchwil y dyfodol.

**<u>Rhannu eich data</u>**

Bydd gan ymchwilwyr PWG fynediad at eich gwybodaeth bersonol mewn ffurf adnabyddadwy fel y disgrifir yn y ddalen wybodaeth cyfranogwr. Os yw'n angenrheidiol i

ddibenion y prosiect ymchwil i bobl eraill gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol mewn ffurf adnabyddadwy, bydd hyn hefyd yn cael ei esbonio yn y ddalen wybodaeth cyfranogwr. Gall hyn fod yn wir os ydym yn cynnal yr ymchwil mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill (e.e. prifysgol arall neu gorff GIG), os oes angen i ni ddefnyddio gwasanaeth allanol (e.e. trawsysgrifo) neu os yw ein gwaith yn cael ei fonitro neu ei archwilio gan sefydliad arall, fel sefydliad ar wahân sy'n darparu cyllid ar gyfer yr ymchwil neu sefydliad sy'n cydweithio gyda'i ofynion archwilio ei hun.

Os byddwn yn rhannu eich data yn y ffordd hon, bydd trefniadau yn eu lle i sicrhau bod y sefydliad arall yn cadw eich data yn ddiogel a dim ond yn eu prosesu yn ôl yr angen i'r diben penodol sy'n berthynol i'r prosiect ymchwil.

**Cadw eich data**

Mae'r ddalen wybodaeth cyfranogwr yn esbonio'r cyfnod amser y disgwyliwn gadw eich data mewn ffurf adnabyddadwy, a pham rydym yn ei chadw am y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am hyd y prosiect ac a yw'n angenrheidiol i gadw data mewn ffurf adnabyddadwy am y cyfnod hwnnw yn ei gyfanrwydd. Mae'n rhoi gwybod i chi hefyd am unrhyw fwriad i gadw data adnabyddadwy am gyfnod hirach, er enghraifft lle mae bwriad i gysylltu'r ymchwil hwn ag allbynnau o brosiect arall, neu i astudio newidiadau i'w ffactora neu ganlyniadau dros amser.

Wrth osod cyfnodau cadw bydd ymchwilwyr PWG yn cymryd unrhyw angen i gadw data mewn ffurf adnabyddadwy i ystyriaeth i'w galluogi i wirio eu hallbynnau ymchwil, er enghraifft os yw eu canlyniadau yn cael eu cwestiynu cyn neu ar ôl cyhoeddi, trwy adolygiad cyfoedion neu lle mae eu hymchwil yn destun asesu neu arholi. Mae angen iddynt hefyd gymryd unrhyw ofynion ar PWG i wneud data ar gael ar gyfer archwiliad i ystyriaeth. Fodd bynnag, dylai ymchwilwyr PWG hefyd osod cyfnodau cadw fel na fydd y data yn cael eu cadw mewn ffurf adnabyddadwy pan nad yw hyn yn angenrheidiol mwyach naill ai i ddibenion ymchwil ynddo'i hun neu i ddibenion cysylltiedig fel archwilio. Lle mae cyfnodau cadw hirach yn cael eu nodi i fod yn briodol, bydd hyn yn cael ei gadw o dan adolygiad i sicrhau ein bod yn cadw data adnabyddadwy yn unig lle mae hyn yn angenrheidiol i ddibenion ymchwil parhaol.

Bydd mesurau diogelwch priodol a rheolaethau mynediad yn cael eu cymhwyso i ddata adnabyddadwy lle mae prosiect ymchwil wedi ei gwblhau ac rydym yn storio data ymchwil i ddibenion archwilio a gwirio yn unig.

**Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data**

Mae'r ddeddf yn datgan y gallwn brosesu eich data personol yn unig os yw'r prosesu yn ateb un o'r amodau prosesu yn Erthygl 6 GDPR. Os ydym yn prosesu data categori arbennig (hynny yw, data personol sy'n berthynol i'ch ethnigrwydd, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol, iechyd neu anabledd, data biometrig neu enetig, credoau crefyddol neu athronyddol, safbwyntiau gwleidyddol neu aelodaeth undeb lafur), mae'n rhaid i'n gweithgareddau hefyd ateb un o'r amodau yn Erthygl 9 GDPR. O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae angen i ni esbonio'r sail gyfreithiol dros gadw eich data, hynny yw, pa rai o'r amodau hyn sy'n gymwys.

Yn gyffredinol, lle rydym yn casglu a phrosesu eich data personol i ddibenion prosiect ymchwil academaidd mae'r amodau canlynol yn gymwys:

- Erthygl 6.1(e) o'r GDPR, hynny yw, mae ein prosesu yn angenrheidiol ar gyfer perfformio'r dasg a gyflawnir er budd y cyhoedd. Mae ymchwil yn dasg mae PWG yn ei berfformio er budd y cyhoedd, fel rhan o'n swyddogaeth graidd fel prifysgol;

- Erthygl 9.2(j) o'r GDPR, hynny yw, mae ein prosesu yn angenrheidiol i ddibenion ymchwil neu ddibenion ystadegol (mae'r amod hwn yn gymwys cyhyd â'n bod yn cymhwyso gwarchodiadau priodol i gadw eich data'n ddiogel a diogelu eich buddiannau: disgrifir y rhain uchod).

Yn gyffredinol nid cydsyniad yw'r sail gyfreithiol o dan y ddeddfwriaeth diogelu data ar gyfer defnydd eich gwybodaeth bersonol ar gyfer ymchwil. Mae hyn oherwydd y gallwn ddibynnu ar eich cydsyniad yn unig fel y sail ar gyfer prosesu data pe byddem bob amser yn gallu gweithredu ar dynnu cydsyniad yn ôl, wrth symud eich data o'n prosiectau ymchwil ac allbynnau. Yn aml ni fyddem yn gallu gwneud hyn yng nghyd-destun prosiect ymchwil, gan y gallai hyn gael effaith ar ddilysrwydd a chywirdeb y broses ymchwil a/neu'r allbynnau o'r ymchwil.

Rydym yn galw am eich cydsyniad am eich cyfranogaeth weithredol yn yr ymchwil, a gallwch dynnu'r cydsyniad hwn yn ôl ar unrhyw adeg. Er enghraifft, os ydym wedi gofyn i chi gymryd rhan mewn cyfweliadau, cwblhewch holiadur neu ewch trwy arsylwad; gallwch dynnu allan o'r gweithgareddau hyn ar unrhyw adeg. Nid yw'r cydsyniad hwn i gymryd rhan yn yr astudiaeth yn golygu ein bod yn dibynnu ar eich cydsyniad fel y sail gyfreithiol i ddefnydd parhaol eich gwybodaeth trwy gwrs y prosiect ac yn yr allbynnau ymchwil. Os yn bosibl, lle rydych yn tynnu yn ôl o gymryd rhan yn y ffordd hon byddwn hefyd yn tynnu eich data yn ôl o'r prosiect ymchwil, ond bydd hyn yn dibynnu ar y cam rydym wedi ei gyrraedd yn y prosiect a sut mae eich data wedi cael eu defnyddio. Ni fyddwn yn gallu tynnu eich holl ddata yn ôl o'r astudiaeth os bydd hyn yn cael effaith andwyol ar gywirdeb a dilysrwydd yr ymchwil. Hyd yn oed os ydym yn tynnu eich data sydd wedi cael eu casglu neu eu cynhyrchu o fewn y prosiect ymchwil yn ôl o'r astudiaeth, bydd angen fel arfer i ni gadw copïau o'ch data o fewn y ddogfennaeth llywodraethiant prosiect (e.e. cofnodion o ffurflenni cydsynio ac o bosibl rhai cyfathrebiadau gyda chi).

Fodd bynnag gellid gofyn i chi am gydsyniad ar gyfer defnyddiau penodol o'ch gwybodaeth fel a ganlyn:

- Os oes angen i ni geisio gwybodaeth yn eich cofnodion meddygol i ddibenion yr ymchwil, mae'r ddeddf yn datgan yn gyfrinachol y gallwn wneud hyn gyda'ch cydsyniad yn unig. Cyn gynted â'ch bod wedi rhoi cydsyniad, mae ein defnydd parhaus o'r wybodaeth hon yn cael ei gwmpasu gan yr amodau yn y ddeddfwriaeth diogelu data fel y disgrifir uchod;
- Os ydym yn bwriadu defnyddio eich data personol yn ein hallbynnau ymchwil mewn ffordd adnabyddadwy, gwnawn hyn yn unig gyda'ch cydsyniad penodol. Er enghraifft, byddwn yn gofyn am eich cydsyniad i gynnwys eich llun neu eich enw mewn unrhyw adroddiadau ymchwil neu allbynnau eraill, ac ar gyfer cynnwys unrhyw ddeunydd ffilm ohonoch mewn unrhyw ffilm i gael ei gynhyrchu fel allbwn o'r ymchwil. Gallwch dynnu'r cydsyniad hwn yn ôl ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi neu ddarlledu. Ni fydd unrhyw wrthodiad o'r cydsyniad neu dynnu'r cydsyniad hwn yn ôl yn cael effaith ar y sail gyfreithiol barhaol am ddefnydd eich gwybodaeth ar gyfer yr ymchwil ei hun, sy'n cael ei gwmpasu gan yr amodau eraill yn y ddeddfwriaeth diogelu data a ddisgrifir uchod.

Bydd ymchwilwyr PWG yn gofyn i chi lofnodi cytundeb cyfranogwr. Bydd hyn yn amlinellu unrhyw gydsyniadau sy'n cael eu ceisio ar gyfer defnyddiau penodol eich gwybodaeth, a gofynnir i chi hefyd gadarnhau eich bod wedi cael mynediad at yr Hysbysiad hwn.